CYFNODION CYFARFOD CYFFREDIN CYNGOR TREF MACHYNLLETH

Wedi ei cynnal yn Y Plas ar ddydd Llun Mehefin 29 2009

Bresennol . Cyng B Dunn, S Rowlands, E. Hughes; S Nicholas; G Baldwin; D.W.Davies G. Davies; M Williams; K Hubbard; D Lewis

Hefyd yn Bressenol: J. H. Parsons - Clerk;

5339 CT 29.06.09 **Ymddiheuriadau**

- Cllrs. K Hubbard; M Biffin – Secretary

5340 CT 29.06.09 **Cyflwyniad**

- Rhoddwyd gyflwyniad gan Ian Draisey o Dulas cyf – Mae Dulas yn cyflogi 60 o bobl or ardal a mae ganddynt lyfr llawn o archebion. Maent hefyd yn cynnig ysgoloriaeth o £1000 I bobl ifanc yn yr ardal. Yr oedd y cynghorwyr yn siomedig bod neb hyd yn hyn wedi cymeryd mantais or ysgoloriaeth. Mae llawer or gwaith drwy gymorth grant ond yn edrych yn bellach ymlaen am gyllid a prosiects.
  Yr oedd y Cynghorion yn gwerthfawrogi y gwaith yr oedd Dulas yn ei wneud..

5341 CT 29.06.09 **Cofnodion**

Mae cofnodion y cyfarfod diwethaf wedi ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn gan y Cyngor

5342 CT 29.06.09 **Busnes Stadurol**

- Doedd dim, ond mi ddaru'r clerc son byddai S4C yn darlledu o'r Plas yr wythnos nesaf.

5343 CT 29.06.09 **Busnes y Maer**

Fe roddodd y Maer ei adroddiad fel y canlyn:-

- Yn bresennol yn y Tabernacl I gyflwyniad Eco Dyfi yn cydnabod Statws Biosffer
- Yn bresennol yn sefydliad Owain Glyndwr I seremoni y coroni mi ddaru sôn yn arbennig am Mr John Duckett a oedd wedi gwneud ymdrech I wneud yn siwr bod digon o faneri I fynu am y diwrnod.
- Argymellodd y Maer I lythyr gael ei yrru I longyfarch Alan Thomas – llywydd Cymdeithas Bowlio Cymru yn dilyn iddynt ennill yn y Bowlio Cydwladol a gafodd ei gynnal yn Belfast

5344 CT 29.06.09 **Materion yw Codi**

- Darpariaeth Rhandiroedd - **(5338)** – Dywedodd Cyng Nicholas bod Cymdeithas Rhandiroedd yn mynd I ail gychwyn – llythyr oddiwrth Chris Tully o CSP yn awgrymu Cymdeithas Rhandiroedd ac efallai fyddai modd o gael arian – soniodd Cyng Rowlands bod person dwy filltir y tu allan I'r dref a diddordeb mewn darparu'r tîr am randal – trafodaeth am bosibilrwydd o safle yn y Plas. Mi ddaru Cyng Dunn a Cyng Williams ailadrodd y sylwadau a godwyd yn cyfarfod Mis Mai.
- Y Gwyrdd yn Bryn y Gôg **(5338)** – llythyr oddiwrth Ian Friaser – mae cyfarfod wedi cael ei drefnu gyda'r prewylwyr a CSP – dywedodd Cyng Rowlands bod rhieni yn pryderu am golli man chwarae I blant ifanc.

- Plismona caeau Peldroed a Rygbi **(5338)** – llythyr i Sgt Gareth Owen – dim ateb
- Parcio Cerbydau **(5328)** – llythyr wedi ei yrru at Wyn Lloyd o gerbydau Lloyd. Mi fydd Cyng Dunn yn cyfarfod gyda Wyn Lloyd ar Mehefin 30 a mi fydd yn adrodd yn ôl I CTM.
- Staff yr Ysbytu **(5241)** – darllenodd Cyng Williams e.bost oddiwrth David Evans o'r B.T.L (L.H.B) yn dweud bod swydd y rheolwr ddim yn cael ei lenwi and mi fyddai y brif weinyddes nyrsio yn edrych ar ôl Machynlleth a Llanidloes. Cynghorwyr ddim yn neilltuol o hapus ynglyn a hyn

5345 **Adroddiad y Panel Pwrpas Cyffredin**

CT Mae cofnodion y cyfarfod diwethaf wedi ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn.

29.06.09

- Dywedodd Cyng Baldwin bod gwyneb y Ffordd yn ddrwg wrth groesfan y Co -op - soniodd Cyng DWDavies bod coed yn hongian ar draws y begwn. **Cytunwyd** I yrru llythyr I Adrian Jervis I roddi gwybod iddo am y materion hyn

5346 **Adroddiad y Panel Iechyd**

CT Mae cofnodion y cyfarfod diwethaf wedi ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn.

29.06.09

- Dywedodd Cyng Rowlands bod yna wasanaeth newydd yn y Ganolfan Iechyd fel rhan o ymgyrch stopio ysmygu Cymru – mi fydd Cynghorwr yn y Ganolfan unwaith yr wythnos.

5347 **Adroddiad Panel Cloc y Dref**

CT Mae cofnodion y cyfarfod diwethaf wedi ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn

29.06.09

- Dywedodd Cyng Jenkins bod cynnigion cychwynol bron yn barod.
- Mae Ann Nixon o Miscellania yn gwerthu cardiau post difrlliw o Cloc y Dref. Mae rhein wedi cael ei rhoddi gan wr bonheddig o'r Amwythig.
- Dywedodd Cyng Hughes ei fod yn adnabod dyn lleol a oedd yn delio gyda sgaffald a fedrai roddi pris rhesymol am y cloc **Cytunwyd** I'r sgaffaldwr lleol weithio drwy y pensaer sydd yn gyfrifol am brosesu cynnigion.

5348 **Adroddiad Panel y Plas**

CT Mae cofnodion y cyfarfod diwethaf wedi ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn

29.06.09

- Soniodd Cyng Dunn am yr adroddiad a gafodd ei yrru I bob un or Cynghorwyr ar y flwyddyn gyntaf o fasnachu.
- Fe ddaru Cyng DW Davies longyfarch Cyng Dunn a'r staff am ei llwyddiant hyd yn hyn.

.

5349 **Adroddiad Cyng Sir – J M Williams**

CT Mae cofnodion y cyfarfod diwethaf wedi ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn

29.06.09

5350 **Ceisiadau Cynllunio**

CT

29.06.09

- Llythyr I ac oddiwrth yr Adran Cynllunio – dywedodd y clerc bod llawer o geisiadau ddim yn cyrraedd mewn amser I gael trafodaeth llawn gyda'r Cyngor
- P2009 0658 – 5 Trem-yr-Orsedd – estyniad llawr sengl

5351 **Datganiad Cyfrifon**

CT Mae cofnodion y cyfrifon wedi ei dosbarthu ac wedi cael ei derbyn

29.06.09

Date		Chq No	Chq Drawn
29/05/2009	PCC - Rates on Community Centre	5100	£ 396.90
25/05/2009	Colin Wilde	5101	£ 1,180.10
25/05/2009	Mark Rumbelow	5102	£ 419.56
25/05/2009	Mel Biffin	5103	£ 366.67
26/05/2009	R A Gaskell	5104	£ 150.86
03/06/2009	R A Gaskell	5105	£ 130.80
09/06/2009	R A Gaskell	5106	£ 141.03
10/06/2009	David Vaughan & Co	5107	£ 3,450.00
10/06/2009	Inland Revenue	5108	£ 616.65
18/06/2009	R A Gaskell	5109	£ 145.94
23/06/2009	R A Gaskell	5110	£ 234.35
22/06/2009	Travis Perkins (Hire of Strimmer)	5111	£ 87.44
22/06/2009	D K Utilities (removal of dead trees)	5112	£ 218.50
25/06/2009	Colin Wilde	5113	£ 1,227.68
25/06/2009	Mark Rumbelow	5114	£ 401.05
			£ 9,167.53

5352 CT 29.06.09 **Gohebiaethau**

- Cynllun Iaeth Gymraeg – dywedodd y Clerc byddai y costau yn waharddol – Atgoffodd y Clerc y Cynghorwyr bod gan y Cyngor bolisi Y Iaeth Gymraeg sydd yn ateb yn Gymraeg I Gohebiaethau a dderbynwyd yn Gymraeg ac mi rydyn hefyd yn cynnig Cymraeg I'r bobl sydd a hoffter. Yn ychwanegol mae ganddom wefan ddwyieithog lle mae cofnodion y Cyngor yn cael ei postio bob mis yn Gymraeg a Saesneg.
- Mynediad I'r Anabl yn gorsaf rheilffordd Machynlleth – **cytunwyd** I yrru llythyr o gefnogaeth ar ran yr achwynydd I Gerwyn Jones, Trennau Arriva ynghyd a copi I Cyng Williams.
- Llythyron o Longyfarchiadau:- Ysgol Gynradd Machynlleth am adroddiad Estyn, Mr Hemming a Mr Jones am gael ei dewis I tîm bowlio Cymru, Mr Will Lloyd Williams ar ei MBE, Ian Draisley o Dulas Cyf am ei waith a'r Cyflwyniad.
- Tesco – llythyr oddiwrth breswyliwr a copi o ateb a gafodd oddiwrth Lembit Opik M.P. Yr oedd y Cynghorwyr wedi derbyn rhein yn barod – mi fydd y llythyrau yn cael ei cad war ffeil I gael ei cynnwys mewn trafodaeth ar amser priodol.
- Un llais Cymru - cyfarfod
- Un llais Cymru - hyfforddiant
- Marchogwyr Cadfarch – cais am bres – llythyr I gael ei yrru yn cyfeirio at y Cydarfod Cyllideb yn Mis Tachwedd
- Slabiay Pafin – derbynwyd lythyr oddiwrth Mr K Humphreys yn gofyn am ymddiheuriad oddiwrth CTM dilynodd hyn gyda dadl wresog; Awgrymodd Cyng Jenkins I lythyr o gydymdeimlad ond nid I ymddiheuro gael ei yrru - **Cytunwyd** –
- Anhawsterau Cynllunio – derbynwyd lythyr oddiwrth Elizabeth Jenkins **Cytunwyd** I yrru llythyr o gefnogaeth cryf I Mrs Jenkins

5353 CT 29.06.09 **Rhifennau**

- Cymdeithas bwlch agored
- Pryder Henoed Powys
- Taflen newyddion y Tabernacl
- Taflen newyddion BILP (PLHB)

5354 **Unrhyw fusnes arall**

TC Doedd dim I drafod

29.06.09

5355 **Yn Gyfrinachol**

TC

29.06.09

- CCTV – Argymellodd Cyng Dunn I gytundeb cynnal a chadw gael ei gymeryd fel fe fuasai yn teimlo mwy hapus o alw y peiriannydd pan fyddai problemmau yn codi:- **Cytunodd** Cyng Jenkins mor belled y byddai yn cael ei drafod – mi fydd rhaid cysylltu gyda'r gwasanaeth technegol I gael pris